**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17eg Mawrth 2008 ym Modlondeb, Conwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30am.

**Presennol**

| **Cynghorydd** | **yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc i'r Awdurdod); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaeth); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); W A Murphy (Uwch Swyddog Gweithredol); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); R Fairhead (Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |
| P S Claydon | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaeth) |

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr C Bretherton-Watt, Cadeirydd Pwyllgor Safonau'r Awdurdod, oedd yn bresennol fel arsylwr yn y cyfarfod.

**2) Rhybudd am Faterion Brys**

Hysbysodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno i'r Clerc nac iddo yntau ar gyfer eu hystyried.

**3) Cyhoeddiadau**

Cyn i'r Cadeirydd wneud ei gyhoeddiadau, rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r aelodau am y materion canlynol:

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Diogelwch Tân yn y Cartref (LCO):** roedd y Gorchymyn hwn wedi dod gam yn nes yn ddiweddar gyda sefydlu 'Pwyllgor Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Diogelwch Tân yn y Cartref Arfaethedig' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'r pwyllgor hwn, oedd yn cynnwys pump aelod, tri ohonynt yn Aelodau Cynulliad o Ogledd Cymru, yn gyfrifol am graffu a derbyn sylwadau yn ymwneud â'r Gorchymyn Drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cyfrin Gyngor. Roedd Ms Ann Jones AC – noddwr y Gorchymyn, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ac Undeb y Frigâd Dân (FBU) i gyflwyno eu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 8fed Ebrill 2008. Yn ôl yr amserlen ddeddfwriaethol bresennol, roedd disgwyl i'r Pwyllgor gwblhau casglu ei dystiolaeth erbyn diwedd Ebrill. Yna, disgwylid i'r Gorchymyn Drafft gael ei gyflwyno i sesiwn Lawn o'r Cynulliad cyn canol Mehefin. Unwaith y byddai'r cynulliad Llawn wedi ei gymeradwyo byddai'r Gorchymyn Drafft yn cael ei roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer ei gyflwyno i Senedd y DU er mwyn iddi gadarnhau trosglwyddo'r pwerau angenrheidiol. Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod tri awdurdod tân ac achub Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion y Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, oedd wedi bod yr Awdurdod

arweiniol a fu'n cynghori Ms Ann Jones AC ar y materion oedd yn bwysig i amcanion y Gorchymyn. Pe bai'r Gorchymyn yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw, a bod y pwerau i wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol, byddai'n gyflawniad o bwys i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Talodd y Prif Swyddog Tân deyrnged i waith dyfal y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'i ymroddiad personol i'r Gorchymyn hwn. Pe byddai amcanion y Gorchymyn hwn yn dwyn ffrwyth, byddai Cymru yn arwain y ffordd trwy ddod yr ardal gyntaf yn y DU ble y byddai yn orfodol gosod systemau taenellwyr cartref mewn eiddo preswyl newydd. Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ac i'w dîm hefyd am eu holl waith a'u hymdrechion ar y prosiect hwn.

**Gwobr Iechyd Corfforaethol:** rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r aelodau, yn dilyn asesiad ym mis Chwefror 2008 bod Gwobr Iechyd Corfforaethol Safon Arian Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ddyfarnwyd i'r Gwasanaeth yn Chwefror 2007, wedi ei huwchraddio i Wobr Safon Aur. Roedd y Safon Iechyd Corfforaethol yn cydnabod cyfraniad sefydliad i wella iechyd a lles ei bersonél. Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod naw maes o waith y Gwasanaeth wedi bod yn rhan o broses asesu'r Wobr. Yn dilyn yr asesiad, roedd gwerthuswyr wedi argymell y dylai'r Gwasanaeth fwrw ati gyda chais i uwchraddio'r wobr am Wobr Blatinwm o fewn deuddeng mis. Penderfynwyd y dylid defnyddio Prosiect Tân 1af yn y Rhyl fel y sylfaen ar gyfer cais y Gwasanaeth am y Wobr Blatinwm. Diolchodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân i'r Tîm Prosiect Iechyd Corfforaethol o dan arweiniad Helen Angel am eu gwaith caled yn sicrhau'r Wobr Aur.

10.40am: Cyrhaeddodd y Cynghorydd S Frobisher y cyfarfod ar yr adeg hon

Yn dilyn y cyhoeddiadau uchod, gwahoddodd y Cadeirydd Mr John Purser, aelod o'r Grŵp Gorchwyl Gwybodaeth Gweithredol, i sôn wrth yr aelodau am y Grŵp Gorchwyl hwn a sefydlwyd yn ddiweddar. Eglurodd fod y Grŵp wedi cael y dasg o gasglu gwybodaeth ynglŷn â'r risgiau oedd yn bodoli ar draws ardal Gogledd Cymru. Dros yr wythnosau nesaf byddai'r Grŵp yn cysylltu â'r holl awdurdodau unedol yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â safleoedd ac ardaloedd o risg yn eu hardal hwy. Eglurodd Mr Purser y byddai'r Grŵp efallai yn galw ar yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol i'w cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i:

i. ofyn i'r aelodau hynny nad oedd eto wedi arwyddo datganiad y 'Côd Ymddygiad Dros Dro' i wneud hynny cyn gadael y cyfarfod;
ii. estyn llongyfarchion yr Awdurdod i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Chris Enness ar gael ei benodi yn Ddirprwy Brif Swyddog Tân newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Stoke-on-Trent a Swydd Stafford. Talodd deyrnged i gyfraniad mawr Mr Enness i waith y Gwasanaeth ac i waith yr Awdurdod yng Ngogledd Cymru ers ei benodiad yn 2004. Diolchodd aelodau a

swyddogion iddo am ei holl ymdrechion gan ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd;

iii. longyfarch Mr Nigel Roberts, Rheolwr Gwylfa yng Nghorwen, ar dderbyn yr MBE yn rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines;

iv. longyfarch Mr Alyn Edwards, Rheolwr Diogelwch Sirol Sir Ddinbych ar dderbyn gwobr gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych fel cydnabyddiaeth o'i waith da yn hyrwyddo gwaith partneriaeth a gwneud Sir Ddinbych yn lle mwy diogel;

v. longyfarch pawb dderbyniodd wobr yn ddiweddar yn y Noson Gwobrau'r Gymuned;

vi. gyfleu dymuniadau gorau'r Awdurdod i Uwch Reolwr Diogelwch Tân y Gwasanaeth, Mr Kevin Hughes, fyddai'n ymddeol ym mis Mai. Diolchodd iddo am ei ymroddiad a'i wasanaeth ffyddlon, y rhan fwyaf ohono gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer. Ymunodd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mis Mai 2003 fel Rheolwr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth. Yna, yn fwy diweddar, daeth yn Uwch Reolwr Diogelwch Tân. Diolchodd aelodau a swyddogion iddo am ei wasanaeth gan ddymuno iechyd a hapusrwydd iddo ef a'i deulu i'r dyfodol;

vii. fynegi cydymdeimlad y Gwasanaeth â'r Cynghorwyr J M Vaughan a G O Williams, y ddau ohonynt wedi colli perthnasau agos yn ddiweddar; a

viii. rhoi gwybod i'r aelodau y byddai yna ddiwrnod cynefino ar gyfer aelodau newydd ac aelodau'n fyddai'n dychwelyd ar yr Awdurdod ar ddydd Mercher, 11eg Mehefin 2008 yn Llanelwy. Byddai cyfarfod cyntaf yr Awdurdod newydd yn cael ei gynnal am 11am ar ddydd Llun, 16eg Mehefin 2008 ym Modlondeb, Conwy. Cynhelid sesiwn hyfforddi byr cyn cychwyn y cyfarfod hwn.

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 11eg Rhagfyr 2007
ii. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 17eg Rhagfyr 2007

***Penderfynwyd:*** ***- cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

iii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2007
iv. Panel Gweithredol 5ed Chwefror 2008
v. Pwyllgor Safonau 15fed Chwefror 2008
vi. Panel Ymgynghorol 25ain Chwefror 2008
vii. Panel Ymgynghorol 3ydd Mawrth 2008

## 5) Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (dosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi diweddariad byr o'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd ganddo ef yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, ac yn ei absenoldeb, gan yr Is-Gadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar 17eg Rhagfyr 2007. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y seminar 'Gweithio gyda'n gilydd: Gwell Cysylltiadau Diwydiannol er mwyn cael gwell Gwasanaeth Tân' yn Llundain a'r gynhadledd 'Mentrau – Gweithio Hyblyg yn y Gwasanaeth Tân ac Achub' wedi bod yn ddigwyddiadau llawn gwybodaeth. Bu'r gwasanaeth coffa yn Eglwys Gadeiriol Coventry ar gyfer y pedwar diffoddwr tân o Swydd Warwick fu farw yn y tân yn Atherstone-on-Stour yn ddigwyddiad hynod ddwys. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau ei bod wedi dod i'r amlwg yng nghyfarfod Grŵp Cyswllt Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru ar 19eg Chwefror nad oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i'w gynnig i awdurdodau tân ac achub. Oherwydd hynny, roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi penderfynu peidio bwrw 'mlaen â chais yr Awdurdod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian ychwanegol ar gyfer 2008/09. Fodd bynnag, yr oedd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau fod arian ar gael ar gyfer y gwaith Diogelwch Tân Cymunedol am y tair blynedd nesaf. Er mwyn cynorthwyo'r awdurdodau gyda'u cynllunio busnes, roedd wedi rhoi sicrwydd y byddai'r prosesau ar gyfer gwobrwyo a dosbarthu'r arian hwn yn cael eu hadolygu a'u gwella. Roedd y Gweinidog hefyd wedi rhoi addewid i aelodau Grŵp Cyswllt y Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru, pe bai ganddynt brosiect penodol wedi ei drefnu a hwnnw'n gofyn am arian ychwanegol, y byddai'n barod i wrando ar eu sylwadau am adnoddau ychwanegol.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod y cyfleusterau a oedd ar gael yn y lleoliad a ddewiswyd ar gyfer Cystadleuaeth Rhyng-Gangen Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) eleni, wedi creu cryn argraff arno. Rhoddodd wybod i'r aelodau hefyd y byddai'n ceisio nawdd gan yr Awdurdod tuag at gostau medalau a thlysau ar gyfer y rhai fyddai'n cymryd rhan.

Wrth ateb y cwestiwn gan y Cynghorydd S Frobisher ynglŷn â oedd plant mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill ar wahân i Sir Ddinbych yn cael budd o sioeau teithiol, megis yr un a gynhaliwyd yn Llysfasi ar 7fed Mawrth 2008, dywedodd swyddogion fod trafodaethau eisoes ar y gweill gydag awdurdodau unedol eraill gyda'r bwriad o sefydlu digwyddiadau tebyg ar draws Gogledd Cymru. Gwnaeth y Cynghorydd Frobisher gais bod diolchgarwch yr Awdurdod i staff Swyddfa Diogelwch Sirol Sir Ddinbych, fu'n trefnu ac yn cynnal y digwyddiad gwych hwn, yn cael ei gofnodi a'i gyfathrebu i bawb oedd ynghlwm â'r trefniadau.

***Penderfynwyd*:- nodi'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad a bod neges yn cael ei hanfon at staff Swyddfa Diogelwch Sirol Sir Ddinbych yn eu llongyfarch ar Sioe Deithiol Diogelwch ar y Ffyrdd wych arall gan ddiolch iddynt am eu holl ymdrechion wrth drefnu a chynnal yr arddangosfeydd.**

**7) Cymeradwyo y Cynigion i'w Cynnwys yn y Cynllun Lleihau Risg Drafft 2009/10**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn cyflwyno rhestr o eitemau i'r aelodau yr oedd y Panel Gweithredol yn argymell y dylai'r Awdurdod ei gynnwys yn ei Gynllun Gweithredu drafft 2009/10 y Cynllun Lleihau Risg. Cynghorodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) yr aelodau fod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg wedi dod i'r casgliad y dylai'r Awdurdod presennol, cyn etholiadau'r awdurdodau lleol ar 1af Mai 2008, gytuno ar y cynigion oedd i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu drafft 2009/10 y Cynllun Lleihau Risg. Byddai'r cynigion hyn yn cael eu hymgorffori i Gynllun Gweithredu drafft a'u cyflwyno i'r Awdurdod 'newydd', yn ei gyfarfod ar 16eg Mehefin 2008, er mwyn eu cymeradwyo i'w cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ers y Nadolig, roedd Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg wedi cyfarfod deirgwaith er mwyn trafod cynigion y gellid eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu drafft. Ar y 6ed Mawrth 2008, roedd y Panel Gweithredol wedi derbyn ac wedi trafod cynigion y Gweithgor gan lunio argymhelliad ar sail y cynigion a gafwyd. Aeth y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) rhagddi i roi manylion y pedwar cynnig a gyflwynwyd ac a restrwyd yn yr adroddiad. Eglurodd fod y cynnig olaf, oherwydd ei fod yn paratoi'r ffordd ar gyfer adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaeth a'i allu i ymateb i'r risgiau presennol a rhai'r dyfodol yng Ngogledd Cymru, yn sefyll ben ac ysgwydd uwchlaw'r tri chynnig arall. Pe cai ei gymeradwyo, y cynnig hwn fyddai sail y Cynllun Lleihau Risg llawn nesaf, y byddai dyletswydd ar yr Awdurdod i'w gynhyrchu ar gyfer 2010/11. Nid oedd adolygiad sylfaenol wedi ei gynnal o'r Gwasanaeth er ei sefydlu ym 1996, felly roedd hi'n hen bryd cael adolygiad eang ei amrediad.

***Penderfynwyd*: -**

i. ***nodi cynnwys yr adroddiad;***
ii. ***cadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol i gynnwys y pedwar cynnig a restrwyd yn yr adroddiad yn y Cynllun Gweithredu drafft fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2008 am gymeradwyaeth i'w anfon am ymgynghoriad cyhoeddus; a***
iii. ***pharhau, yn y cyfamser, i gychwyn trafodaethau anffurfiol ar y cynigion drwy gyfrwng swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.***

## 8) Alldro Amcanol 2007/08

Yn absenoldeb y Trysorydd, cyflwynodd Cyfrifydd y Gwasanaeth ei adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn rhoi i'r aelodau amcan o ffigwr alldro amcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08. Eglurodd fod disgwyl, cyn belled na fyddai unrhyw ddigwyddiadau mawr neu anghyffredin cyn diwedd y flwyddyn ariannol, y byddai'r Awdurdod yn wynebu tanwariant o tua £23,121 yn erbyn ei gyllideb ar gyfer 2007/08. Tynnodd y Cyfrifydd sylw'r aelodau at yr 'Amrywiannau i'r Gyllideb' a restrid yn yr adroddiad ac eglurodd y rhesymau dros yr amrywiannau hyn.

***Penderfynwyd*: - nodi yr amcangyfrifid y tanwariant i fod yn £23,121 ar hyn o bryd, ac y dylai unrhyw danwariant fyddai ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gael ei fuddsoddi mewn gwaith Diogelwch Tân Cymunedol pellach.**

## 9) Alldro Cyfalaf Amcanol 2007/08

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei bod wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi a chylchredeg yr agenda fusnes fod y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn yn syrthio i gategori oedd yn ei eithrio rhag cael ei ddatgelu. Felly, byddai trafodaeth ar yr adroddiad hwn yn digwydd ar gychwyn busnes Rhan II o dan eitem fusnes 19a.

## 10) Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw

Cyflwynodd y Cyfrifydd adroddiad ac atodiadau'r Trysorydd (dosbarthwyd ymlaen llaw) gan gyflwyno Dangosyddion Darbodus yr Awdurdod a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2008/09 i'r aelodau a cheisio eu cymeradwyaeth ar gyfer y Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Eglurodd wrth yr aelodau y byddai'r adroddiad hwn wedi ei gyflwyno i'r aelodau yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr o dan amgylchiadau arferol, ynghyd â'r gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, oherwydd cymhlethdod y broses o bennu cyllideb ar gyfer 2008/09 a'r cyfyngiadau oherwydd hynny ar amser swyddogion, roedd cyflwyniad yr adroddiad wedi ei oedi hyd y cyfarfod presennol. Tynnodd y Cyfrifydd sylw'r aelodau at y wybodaeth yn yr adroddiad a manylodd ar gefndir y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw a'r rheswm pam y gofynnwyd iddynt gymeradwyo'r Datganiad Polisi, a atodwyd fel Atodiad C, yn y cyfarfod presennol.

***Penderfynwyd*: - cymeradwyo'r**

***I** **Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad;***
***ii.** **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2008/09 a amlinellwyd yn Atodiad B yr adroddiad; a'r***
***iii.** **datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn Atodiad C yr adroddiad.***

## 11) Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Safonau

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod. Eglurodd, fel mater o lywodraethiad corfforaethol da , fod y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn manylu ar y materion yr oedd wedi ei drafod yn ystod y deuddeng mis blaenorol. Aeth y Clerc rhagddo i egluro, oherwydd fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn bresennol yn arsylwi'r cyfarfod presennol, y byddai angen newid paragraff 12 yr adroddiad i adlewyrchu hynny.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.***

## 12) Diwygiadau Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad a'r atodiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn manylu ar nifer o ddiwygiadau arfaethedig i Rheolau Sefydlog yr Awdurdod. Eglurodd bod yr angen i adolygu'r Rheolau Sefydlog yn deillio o benderfyniad yr Awdurdod i gynyddu nifer yr aelodau annibynnol oedd yn gwasanaethu ar ei Bwyllgor Safonau o 3 i 4. Tra'n edrych trwy'r Rheolau Sefydlog, daeth yn amlwg fod nifer o newidiadau eraill hefyd angen eu gwneud, yn bennaf er mwyn diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth. Er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt, rhestrwyd y newidiadau angenrheidiol yn yr atodiad i'r adroddiad. Diolchodd y Clerc i'r Swyddog Cyswllt Aelodau am ddarllen drwy'r Rheolau Sefydlog a nodi'r newidiadau angenrheidiol. Eglurodd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, pe bai'r newidiadau a argymhellwyd yn cael eu cynnig a'u heilio yn y cyfarfod presennol, y byddai unrhyw drafodaeth a phleidlais ddilynol ynglŷn â'r newidiadau yn cael ei gohirio hyd nes cyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Mehefin.

Aeth y Clerc yn ei flaen wedyn i hysbysu'r aelodau ei fod yn ddiweddar wedi ystyried a oedd maint aelodaeth yr Awdurdod yn gyfatebol i faint yr etholwyr ym mhob sir. Roedd dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu nad dyma'r achos. Cynghorwyd yr aelodau y byddai Awdurdod o 22 o aelodau yn adlewyrchiad mwy cyfatebol o nifer yr etholwyr yn yr ardal. Cynghorwyd yr aelodau nad oedd y mater o adolygu maint yr Awdurdod a thrwy hynny, ddyraniad y seddi i bob cyngor, wedi ei ystyried ers sefydlu'r Awdurdod, ac felly roedd gwir angen gwneud hynny. Hysbysodd y Clerc yr aelodau y gellid cychwyn adolygiad o'r fath unrhyw amser. Awgrymodd, fodd bynnag, y gallai fod yn briodol i fwrw ymlaen â'r adolygiad yn ystod 2008 yng nghyd-destun ymateb yr Awdurdod i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a r ymgysylltiad aelodau a threfniadau craffu, y disgwylid ei gyhoeddi yn fuan. Cynghorodd hefyd, pe byddai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i'r canlyniad y dylid sefydlu trefniadau craffu mwy ffurfiol y gallai hyn olygu adolygu Rheol Sefydlog 12 a Rheolau Sefydlog eraill. Gallai hefyd arwain at adolygiad o faint y Panel Gweithredol a sut y dyrennid seddi ar y Panel.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***nodi'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog, a restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad, ac y byddai trafodaeth a phleidlais ar y diwygiadau yn cael ei gohirio tan gyfarfod busnes nesaf yr Awdurdod ym mis Mehefin 2008; a***
ii. ***bod adolygiad o faint yr Awdurdod, gan gynnwys dyraniad seddau i bob cyngor, i'w gynnal yn ystod 2008 gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar y cyd â'r argymhellion fyddai'n deillio o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ymgysylltiad aelodau a chraffu.***

**13) Ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am sefydlu Panel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'i oblygiadau ar gyfer awdurdodau tân ac achub. Eglurodd, er nad oedd pwerau'r Panel yn ymestyn yn uniongyrchol i benderfynu lefel y lwfansau oedd yn daladwy i aelodau awdurdodau tân ac achub, yr oedd, fodd bynnag wedi gwahodd sylwadau gan yr awdurdodau tân ac achub i'w ymgynghoriad cychwynnol fyddai'n arwain at gyhoeddi ei 'Adroddiad Cychwynnol'. Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau at Atodiad 1 ei adroddiad oedd yn cynnwys ymateb drafft ar gyfer ystyriaeth yr aelodau ac eglurodd y pwyntiau a godwyd yn yr ymateb arfaethedig. Holodd y Cynghorydd D Barratt a fyddai'n addas codi mater yr anghydraddoldeb oedd yn bodoli ar hyn o bryd rhwng lefel y lwfans a delid i aelodau o awdurdodau'r heddlu mewn cymhariaeth â lefel y lwfansau a delid i aelodau awdurdodau tân ac achub, ac hefyd lefel y lwfans a delid i gadeiryddion pwyllgorau craffu awdurdodau lleol. Cadarnhaodd y Clerc, er bod y rheoliadau oedd yn llywodraethu awdurdodau'r heddlu yn wahanol i'r rhai oedd yn llywodraethu awdurdodau tân ac achub, nad oedd unrhyw beth i rwystro'r Awdurdod rhag codi'r ddau fater yma yn eu sylwadau i'r Panel.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;***
ii. ***cymeradwyo'r ymateb yn Atodiad1 fel y'i drafftiwyd yn ddibynnol ar gynnwys cyfeiriad at yr anghysonder sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng lefelau y lwfansau a delir i aelodau Awdurdod Tân ac Achub o'i gymharu â'r lwfansau a delir i aelodau Awdurdodau yr Heddlu ac i'r Panel, pan yn ffurfio'i argymhellion ar uchafswm lefel y lwfansau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau craffu a phwyllgorau eraill mewn cynghorau, ystyried lefel cyfrifoldeb a gweithgarwch y cadeiryddion a'r is-gadeiryddion Awdurdodau Tân y mae uchafswm eu lwfansau wedi eu pennu gan reoliadau; ac***
iii. ***yn dilyn cyhoeddi 'Adroddiad Cychwynnol' y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, bod yr Awdurdod yn ystyried dyfarnu Lwfans Cyfetholedig i aelodau annibynnol ei Bwyllgor Safonau a'r lefel o lwfans fydd yn daladwy.***

**14) Y Diweddaraf gan Weithgor yr Hyrwyddwyr**

Cyflwynodd y Swyddog Cyswllt Aelodau ei hadroddiad arferol hi â'r Is-Gadeirydd ar y cyd (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn roi gwybod i'r aelodau am waith Gweithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Rhoddwyd crynodeb i'r aelodau o gynnwys yr adroddiad a chynghorwyd hwy bod y Gweithgor, yn ei gyfarfod ar 16eg Ionawr 2008, ar ôl ystyried hunanasesiad yn erbyn meini prawf y Freinlen, yn argymell y dylai'r Awdurdod fabwysiadu datganiad fyddai'n tanlinellu ei ymrwymiad i gefnogi a datblygu aelodau a hefyd, yn y cyfarfod presennol, gyflwyno ei hun ar gyfer achrediad dan y Freinlen drwy arwyddo'r 'Datganiad o Fwriad'. Holodd y Cynghorydd J A MacLennan a oedd y 'trefniadau cyfansoddiadol cyfoes' y cyfeirid atynt yn y 'Datganiad o Fwriad' yn golygu y byddai'n rhaid i'r Awdurdod adolygu ei drefniadau cyfansoddiadol a mabwysiadu cyfansoddiad newydd. Cynghorodd swyddogion eu bod yn dehongli'r cymal hwn i olygu bod yr Awdurdod, fel rhan annatod o'i waith, yn adolygu yn rheolaidd ei drefniadau llywodraethu. At ddiben ymdrin â'i fusnes yn effeithiol ac yn effeithlon, roedd yr Awdurdod yn barhaus yn adolygu ac yn diwygio ei Reolau Sefydlog a chylchoedd gwaith ei bwyllgorau fel y byddai'r angen yn codi.

***Penderfynwyd:* -**

***i. nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;***
***ii. bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymrwymo i greu amgylchedd o addysgu a datblygu er mwyn rhoi'r lefel angenrheidiol o sgiliau a dealltwriaeth i aelodau i'w galluogi i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon; ac***
***iii. awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r Datganiad o Fwriad i ymgeisio am lefel sylfaenol Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau – fersiwn yr Awdurdodau Tân ac Achub i'w gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod swyddogion yn bwrw ymlaen i gasglu'r portffolio tystiolaeth i'w gyflwyno i'r Gymdeithas i gefnogi ei gais.***

**15) Dirprwyo Pwerau dros dro cyn y Cyfarfod Blynyddol**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn ceisio i'r Awdurdod ddirprwyo ei bwerau o ddiwedd cyfnod mewn swydd aelodau presennol yr Awdurdod Tân hyd nes cyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar ôl yr etholiadau. Eglurodd mai dyma'r adroddiad arferol, a gyflwynwyd i'r aelodau bob pedair blynedd yn y cyfarfod olaf cyn etholiadau'r awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod gwaith yr Awdurdod yn parhau yn y cyfnod rhwng diwedd yr Awdurdod presennol a chychwyn yr Awdurdod newydd.

***Penderfynwyd:* - bod holl bwerau'r Awdurdod Tân, ei bwyllgorau a'i ddeiliaid swyddi yn cael eu dirprwyo i'r:**

i. ***Prif Swyddog Tân, drwy ymgynghoriad gyda'r Clerc a'r Trysorydd, ar gyfer y cyfnod o'r 5ed Mai 2008 nes <u>unai'r</u> dyddiad y bydd Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân a etholwyd ym mis Mehefin 2007 yn cael eu hailbenodi ar yr Awdurdod Tân <u>neu</u> gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar 16eg Mehefin 2008 os na fydd y naill na'r llall ohonynt yn cael eu hailbenodi, pa bynnag ddyddiad sydd gynharaf;***
ii. ***Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân os fydd un neu'r ddau ohonynt yn cael eu hai benodi ar yr Awdurdod Tân o'r dyddiad maent yn cael eu hai benodi tan gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar 16 Mehefin 2008.***
iii. ***bydd y dirprwyaethau hyn yn gymwys yn unig i bwerau sy'n berthnasol i benderfyniadau na ellir yn rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.***

**16) Y Tîm Llosgi Bwriadol: Gorolwg o Leihau Risg Mewn Ysgolion**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y gwaith a gyflawnwyd gan Dîm Llosgi Bwriadol Gogledd Cymru wrth gynorthwyo ysgolion i ennill nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r bwriad o'u diogelu rhag llosgi bwriadol. Roedd aelodau'r Tîm yn bresennol yn y cyfarfod ac fe'u cyflwynwyd i'r aelodau. Manylodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ar gynnwys ei adroddiad, gan gynnwys y broses a ddilynwyd wrth benderfynu pa ysgolion gai flaenoriaeth wrth gyflwyno ceisiadau am arian i Lywodraeth y Cynulliad a chanlyniadau'r ceisiadau rheiny. Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn crynhoi faint o arian a ddyrannwyd i amrywiol brosiectau lleihau llosgi bwriadol mewn ysgolion ar draws Gogledd Cymru yn ystod 2007/08 a'r math o waith ymyrraeth yr oedd yr arian hwn yn ei ariannu. Hysbysodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, o ganlyniad i gydweithio ardderchog ar ran y Tîm, personél y Gwasanaeth ar lefel sirol a'r awdurdodau addysg lleol, bod y symiau sylweddol o arian a nodwyd yn yr adroddiad wedi eu sicrhau. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, cynghorodd swyddogion nad oedd unrhyw arian, hyd yma, wedi ei ddyrannu tuag at brosiectau er mwyn lleihau llosgi bwriadol mewn ysgolion ar Ynys Môn, gan fod yr wybodaeth ddiweddaraf yn dangos nad oedd y broblem hon yn amlwg iawn ar yr ynys. Sicrhawyd aelodau nad oedd ysgolion oedd yn sefydliadau Mentrau Ariannol Preifat (PFI) cyflawn neu rannol yn cael eu trin yn wahanol i sefydliadau'r awdurdodau lleol wrth i geisiadau am arian gael eu dwyn ynghyd a'u cyflwyno, a bod ffensio a chamerâu cylch cyfyng yr un mor effeithiol â'i gilydd wrth leihau'r perygl o losgi bwriadol. Amgylchiadau lleol fyddai'n penderfynu pa ddull fyddai'n addas ac yn fwyaf effeithiol ar gyfer pob ysgol unigol. Wrth ymateb i ymholiad ynglŷn â pham na ddangoswyd y swm a ddyrannwyd o dan y cynllun hwn i ysgolion yng Ngwynedd, dywedodd y Clerc fod hyn oherwydd rhesymau cyfrinachedd ac er mwyn diogelu'r broses dendro, a dyna'r rheswm dros ddangos y cyfansymiau cyffredinol fel symiau mwy na (>). Cynghorwyd yr aelodau y byddai personél y Tîm ar gael ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn ateb cwestiynau'r aelodau.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad.***

**17) Gemau Diffoddwyr Tân y Byd 2008**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog ei adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi gwybod i aelodau am ddigwyddiad rhyngwladol oedd i'w gynnal yn ystod misoedd Awst a Medi eleni, gan Wasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy. Er mai Glannau Merswy oedd y Gwasanaeth fyddai'n cynnal y Gemau, byddai rhai o weithgareddau'r gemau'n cael eu cynnal yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr aelodau grynodeb o hanes Gemau Diffoddwyr Tân y Byd ac am y diddordeb disgwyliedig yn y gemau. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy wedi gwahodd y Gemau i Lerpwl fel rhan o ddathliadau'r ddinas o fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008. Byddai'r digwyddiadau Caiacio, Pysgota Môr, Ras Rafftiau a Beicio Mynydd y Gemau yn cael eu cynnal mewn amrywiol leoliadau ar draws Sir Ddinbych ddiwedd Awst a dechrau Medi. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r aelodau y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy gyda'r Gemau mewn sawl dull, gan gynnwys darparu arddangosfeydd gan Dîm Achub Dŵr a Thîm Achub gyda Rhaff y Gwasanaeth. Yn ychwanegol, byddai personél y Gwasanaeth yn ymgeisio mewn amrywiol gystadlaethau unigol a thîm. Byddai'r cystadlaethau a gynhelid yng Ngogledd Cymru yn gyfle gwych i'r Gwasanaeth hyrwyddo ei waith a chyfathrebu ei brif negeseuon i gynulleidfa ehangach. Anogodd y Dirprwy Brif Swyddog yr aelodau i gefnogi'r Gemau drwy fynychu amrywiol ddigwyddiadau.

***Penderfynwyd*: - nodi'r wybodaeth.**

**18) Er Gwybodaeth**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) gopi diweddaraf y Cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i'r aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am rifyn ardderchog arall.

***Penderfynwyd*: -dderbyn y cyhoeddiad.**

**19) Materion brys**

Dim

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau yr argymhellid y dylid trafod yr eitemau nesaf o fusnes ar agenda'r cyfarfod heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg.

***Penderfynwyd:* - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth drafod yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac/neu 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

**RHAN II**

Roedd yr adroddiad canlynol wedi ei eithrio rhag datgeliad o dan baragraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**19a) Alldro Cyfalaf Dros Dro 2007/08**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a'r atodiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am amcangyfrif yr alldro ar wariant cyfalaf mewn perthynas ag ystad yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08. Eglurodd fod y dyraniadau cyllideb ar gyfer amryw o brosiectau a restrwyd yn yr adroddiad wedi eu pennu ar ddiwedd 2006. Fodd bynnag, roedd costau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny ac roedd yr Awdurdod wedi penderfynu y dylai gosod systemau taenellwyr fod yn orfodol ym mhob prosiect adnewyddu. O ganlyniad, byddai cost derfynol nifer o'r prosiectau hyn yn fwy na dyraniad y gyllideb wreiddiol ac felly byddai angen cyfeirio rhai ohonynt yn eu hôl at yr Awdurdod er mwyn eu cymeradwyo er mwyn parhau â'r gwaith. Ar hyn o bryd, roedd y gwaith ar Orsaf Dân Bwcle yn syrthio i'r categori hwn. Ac felly, yn unol â Rheoliad Ariannol 8.5, dyma'r rheswm dros geisio caniatâd yr Awdurdod am adnoddau a osodwyd naill ochr ar gyfer prosiect arall, ac na fyddid eu hangen ar gyfer y diben gwreiddiol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, er mwyn eu defnyddio i dalu'r costau ychwanegol am y Gwaith Moderneiddio a Chydymffurfio ar Orsaf Dân Bwcle. Pe bai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu, byddai'n galluogi'r gwaith angenrheidiol i gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol fyddai'n dod.

O ran y Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl cynghorwyd yr aelodau fod yr Awdurdod wedi derbyn llythyr gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei hysbysu eu bod wedi dyfarnu £250k o'i Chynllun Grantiau Gwella Trefi ac Amgylchedd tuag at y prosiect. Roedd hyn £100K yn uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol. O ran y prosiect cyfalaf arfaethedig yng Ngorsaf Dân Nefyn, rhoddodd y Cynghorydd M Griffith wybod i'r Awdurdod fod Cyngor Gwynedd wedi rhoi'r caniatâd cynllunio angenrheidiol yn ddiweddar.

***Penderfynwyd:* -**

*i.* ***nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â gwariant rhaglen gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer ei ystad yn 2007/08; a***
*ii.* ***chymeradwyo cynyddu'r gyllideb ar gyfer y gwaith sydd ei angen yng Ngorsaf Dân Bwcle o £93K o'r arian a neilltuwyd yn 2007/08 ar gyfer Prosiect Adleoli Gorsaf Dân Wrecsam, oherwydd na fyddai ei angen ar gyfer y diben hwnnw y flwyddyn ariannol bresennol.***

Roedd yr adroddiad canlynol wedi ei eithrio rhag datgeliad o dan baragraffau 12 ac 14 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**20) Penodiadau Statudol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth**

Cyn cychwyn ar yr eitem hon o fusnes, gofynnodd y Cynghorydd P C Evans am arweiniad gan y Clerc ynglŷn a ddylai cynrychiolwyr o'r awdurdodau cyfansoddol oedd â diddordeb yn y penodiadau statudol a'r amrywiol gytundebau lefel gwasanaeth ddatgelu'r diddordebau rheiny. Cynghorodd y Clerc y dylai'r cynrychiolwyr hynny ddatgan eu diddordeb yn y penodiadau perthnasol ac ystyried ymatal rhag pleidleisio ar y penodiadau a'r cytundebau penodol rheiny.

Aeth y Prif Swyddog Tân yn ei flaen wedyn i gyflwyno ei adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â'r adolygiad o'r penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth a gyflawnwyd gan y Panel Gweithredol. Rhoddodd grynodeb o'r broses adolygu, canlyniadau'r adolygiadau a'r argymhellion dilynol a oedd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod at ddiben eu cymeradwyo.

***Penderfynwyd:* - nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn cysylltiad â'r Penodiadau Statudol a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth, yn cynnwys y telerau a'r amodau a drafodwyd, a chadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol y bydd am gyfnod o bedair blynedd a ddaw i rym ar 1af Ebrill 2008:**

- ***i. penodiad statudol Trysorydd i'r Awdurdod Tân a'r ddarpariaeth o Wasanaethau Ariannol yn aros gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;***
- ***ii. yn amodol ar gasgliad llwyddiannus y trafodaethau, penodi Colin Everett i rôl Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod;***
- ***iii. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i'r Awdurdod; a***
- ***iv. y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau pensiwn yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, y Cynllun Pensiwn Newydd i Ddiffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn aros gyda Chyngor Sir y Fflint.***

Datganodd cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y Cynghorwyr P C Evans, W E Jones, J A MacLennan a J M Vaughan ddiddordeb yn y penodiad statudol o Drysorydd i'r Awdurdod a'r cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer darparu Gwasanaethau Ariannol a Gwasanaethau Cyfreithiol i'r Awdurdod ac ni chymerasant ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y penodiad nac ar y cytundebau lefel gwasanaeth. Yn yr un modd, datganodd cynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint, y Cynghorwyr D Barratt, D Clayton, E F Evans, R G Hampson a C Shone, ddiddordeb ym mhenodiad statudol Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod a'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu Gwasanaethau Pensiwn i'r Awdurdod. Yn unol â'r drefn, ni chymerasant hwythau ran ychwaith yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y penodiad na'r cytundeb hwn.

Roedd yr adroddiad canlynol wedi ei eithrio rhag datgeliad o dan baragraff 12 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**21) Penodi Aelod Annibynnol i Wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn gwneud cais i'r Awdurdod benodi aelod annibynnol ychwanegol i wasanaethu ar ei Bwyllgor Safonau. Hysbysodd yr aelodau am y cefndir i'r penodiad a'r broses recriwtio a ymgymerwyd â hi er mwyn llenwi'r swydd, yn unol â'r drefn a osodwyd yn y Rheoliadau sy'n llywodraethu pwyllgorau safonau. Eglurodd y Clerc y cyngor gynhwysid yn yr adroddiad a'r argymhelliad a luniwyd gan y Panel Ymgynghorol a sefydlwyd er mwyn cyflawni'r broses ddewis a chyfweld yn ymwneud â'r penodiad.

***Penderfynwyd:* -**

***i. nodi cynnwys yr adroddiad ac argymhelliad y Panel Ymgynghorol; a***

***ii. chymeradwyo penodi Mr Samindre Soysa i wasanaethu fel aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod am dymor o bum mlynedd yn cychwyn ar 1af Ebrill 2008.***

Wedi gorffen trafod y materion ar yr agenda, agorodd y Cadeirydd ran olaf y cyfarfod i'r Wasg a'r cyhoedd.

**RHAN I**

Cyn dirwyn y cyfarfod i ben, dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r holl aelodau yn yr etholiadau lleol fyddai'n cymryd lle ar 1af Mai 2008 a diolchodd i bawb am eu cyfraniad at waith yr Awdurdod dros y pedair blynedd ddiwethaf. Dymunodd yn dda i'r dyfodol i'r rhai hynny na fyddent yn ceisio cael eu hailethol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth bawb oedd yno fod y cyfarfod presennol yn nodi diwedd cyfnod i'r Awdurdod oherwydd, ers ei sefydlu ym 1996 a hyd yn oed cyn hynny, roedd y Prif Weithredwr a swyddogion eraill o Gyngor Sir Ddinbych wedi bod ynghlwm â threfniadau llywodraethol yr Awdurdod. Yn wir roedd Gorchymyn Cyfuno 1995, a sefydlodd yr Awdurdod, yn manylu y byddai Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am alw cyfarfod cyntaf yr Awdurdod. O hynny tan 31ain Mawrth 2008 roedd rôl Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod wedi ei chyflawni gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych.

Ers 1af Chwefror 2002 roedd y swydd hon wedi ei chyflawni gan Mr Ian Miller. Yn anffodus, roedd ef wedi penderfynu peidio ailymgeisio pan y deuai ei gontract presennol i ben ar 31ain Mawrth 2008. Felly, y cyfarfod presennol fyddai y cyfarfod llawn olaf o'r Awdurdod Tân ac Achub y byddai yn ei fynychu yn ei rôl fel Clerc a Swyddog Monitro. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Miller am ei ymroddiad a'i waith diflino ar ran yr Awdurdod ac ar ran yr aelodau dros y chwe

blynedd diwethaf. Talodd deyrnged i'w ymdrechion cydwybodol yn gwarchod buddiannau'r Awdurdod a chynnal ei enw da bob amser. Yn ystod ei gyfnod fel Clerc roedd yr Awdurdod a'r Gwasanaeth wedi profi newidiadau mwy nag erioed o'r blaen, yn bennaf oherwydd cyflwyno Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Cyfeiriodd y Cadeirydd yn benodol at y gwaith yr oedd Mr Miller wedi ei gyflawni yn ystod y broses ddeddfwriaethol a arweiniodd at weithredu'r ddeddf, yn cynnwys dwyn sylw at bryderon yr Awdurdod ar amrywiol agweddau o'r ddeddfwriaeth arfaethedig a'u heffaith ar yr Awdurdod ac ar Ogledd Cymru yn gyffredinol. Roedd wedi gohebu'n helaeth gydag ASau ac Aelodau Tŷ'r Arglwyddi, gan hyd yn oed ddarparu nodiadau briffio ar eu cyfer a mynychu cyfarfodydd yr Uwch Bwyllgor yn yr Ail Dŷ. Ers hynny, cydnabuwyd yn eang na fyddai bron unrhyw graffu wedi digwydd ar y ddeddfwriaeth arfaethedig a'i effaith ar Gymru, oni bai am ddiddordeb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac ymdrechion Mr Miller yn fwyaf penodol ar ran yr Awdurdod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau, fod Mr Miller, fel Clerc, wedi ymgyrchu'n frwd er mwyn sicrhau lwfansau ar gyfer aelodau o awdurdodau tân ac achub a'i fod yn parhau i godi'r mater o wneud y lwfansau hyn yn bensiynadwy. Roedd gwaith Mr Miller ar ran yr Awdurdod ar y materion hyn ac ar faterion eraill, oherwydd ei sylw i fanylder, wedi ennyn edmygedd a pharch yr awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai colled fawr ar ôl ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i barodrwydd i helpu a chynghori. Gofynnodd y Cadeirydd i Mr Miller gyfleu diolch yr Awdurdod i Mrs Olwen Williams a staff eraill o fewn ei Adran am eu cwrteisi a'u parodrwydd i helpu aelodau a swyddogion bob amser. Heb amheuaeth, roedd sawl cyfeillgarwch wedi ei ffurfio dros y blynyddoedd diwethaf.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i Ms Jane Kennedy a Mr Ian Hearle, y ddau ohonynt wedi dirprwyo fel Swyddogion Monitro pan nad oedd Mr Miller ar gael. Gofynnodd hefyd i Ms Kennedy gyfleu diolch yr Awdurdod i'w thîm oedd wedi darparu gwasanaethau cyfreithiol i'r Awdurdod dros y deuddeng mlynedd diwethaf.

Fel arwydd o werthfawrogiad yr Awdurdod o'i waith a'i ymdrechion, cyflwynodd y Cadeirydd rodd a chreiriau'r Awdurdod i Mr Miller. Cyflwynwyd rhoddion a chreiriau hefyd i Ms Kennedy a Mr Hearle. Ategodd aelodau a swyddogion ddiolch y Cadeirydd i'r tri swyddog am eu gwaith a dymuno iechyd, hapusrwydd a phob llwyddiant iddynt ar gyfer y dyfodol.

Ymatebodd Mr Miller drwy ddiolch i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig ac am y rhoddion. Diolchodd yn arbennig i'w ddau ddirprwy swyddogion monitro, Ms Jane Kennedy a Mr Ian Hearle, yr oedd eu cysylltiad â'r Awdurdod Tân ac Achub yn ymestyn yn ôl i'r dechrau yn 1996. Diolchodd Mr Miller i ddeiliaid presennol swyddi'r Awdurdod ynghyd a'u rhagflaenwyr yn y swyddi hynny yr oedd ef wedi cydweithio â hwy, y Prif Swyddogion presennol a'u rhagflaenwyr a'r Swyddog Cyswllt Aelodau am bob cymorth a chefnogaeth. Eglurodd Mr Miller ei fod wedi mwynhau ei amser gyda'r Awdurdod yn fawr, a bod yna drafodaethau cryf a diddorol yn ogystal â chamau cadarnhaol tuag at

foderneiddio wedi digwydd yn ystod yr amser hwnnw.  Er bod rhagor o sialensiau yn ei wynebu, roedd yn hyderus, y gallai'r Awdurdod, gyda'i dîm o swyddogion, barhau i wneud cynnydd yn y dyfodol.  Terfynodd drwy ddymuno pob llwyddiant i'r Awdurdod a phawb oedd ynghlwm ag ef i'r dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am.